Month of the Military Child
Mis y Plentyn Milwrol

April/Ebrill | #MilitaryChildMonthCymru

Ffyrdd i deuluoedd Lluoedd Arfog i gymryd rhan…

SSCE CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

Mis Ebrill yw Mis y Plentyn Milwrol, sy'n tynnu sylw at rôl bwysig plant milwyr yng nghymuned y Lluoedd Arfog. Mae'n gyfle i gefnogi teuluoedd y Lluoedd Arfog a'u plant oherwydd yr aberth maen nhw'n ei wneud bob dydd a'r heriau maen nhw'n eu goresgyn.

Bydd SSCE Cymru yn gweithio gyda lleoliadau addysg ac awdurdodau lleol i gynnal gweithgareddau yn ystod y mis nesaf i ddeall, codi ymwybyddiaeth a dathlu profiadau unigryw'r grŵp hwn o blant a phobl ifanc, a dod yn amgylchedd mwy cyfeillgar i'r Lluoedd Arfog.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys ychydig o syniadau ar gyfer teuluoedd y Lluoedd Arfog i ystyried cymryd rhan yn ystod 'Mis y Plentyn Milwrol'.

Month of the Military Child

Mis y Plentyn Milwrol

April/Ebrill | #MilitaryChildMonthCymru

Am wybodaeth, cyngor, manylion cyswllt neu gefnogaeth gydag unrhyw un o'r syniadau uchod, cysylltwch â'r Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol i Blant y Lluoedd Arfog yn eich ardal.

SSCE CYMRU

DATHLU

profiadau plant y Lluoedd Arfog

Gwnewch faneri a phosteri a defnyddio balwnau piws i addurno'r ysgol ym mis Ebrill.

Gallwch annog plant y Lluoedd Arfog i fod yn greadigol ac ysgrifennu eu straeon eu hunain am fod yn blentyn y Lluoedd Arfog.

Creu gwaith celf thema dant y llew a'u harddangos o amgylch eich cartref.

Anfonwch gardiau diolch i ganolfan/uned/orsaf Lluoedd Arfog lleol, elusen y Lluoedd Arfog neu gartref gofal lleol neu grwp cymunedol hen filwyr.

Adrodd y gerdd Dandelion i'w rhannu gyda ffrindiau a theulu ar gyfryngau cymdeithasol

Anogwch blant y Lluoedd Arfog i fod yn greadigol a chynhyrchu darn o waith celf sy'n dangos eu teimladau a'u profiadau o fod yn rhan o deulu'r Lluoedd Arfog.

Defnyddiwch Adnoddau Dysgu Diwrnod y Lluoedd Arfog i archwilio hanes y Lluoedd Arfog.

Gofynnwch i ddisgyblion ddangos eu gwerthfawrogiad drwy ysgrifennu cerdd, cân neu lythyr.

Cynigiwch gopi o *Life of a Page Turner Reading Journal* i blant yn eu harddegau a'u harddegau cynnar, sef dyddiadur y gall pobl ifanc y Lluoedd Arfog ei ddefnyddio i fynegi eu meddyliau a'u teimladau mewn geiriau a lluniau. Ar gael drwy Reading Force.

Gallwch greu a recordio rhaglen newyddion drwy chwarae rôl ac egluro gwerth y Lluoedd Arfog.

Cwblhewch daflenni gweithgareddau, posau a chwileiriau ar thema'r Lluoedd Arfog sydd ar gael yn Little Troopers.

Cynnal gweithgaredd codi arian a chefnogi elusen Lluoedd Arfog lleol neu genedlaethol.

Siaradwch gydag ysgol eich plentyn ynghylch ffyrdd y gallent gymryd rhan yn y Mis y Plentyn Milwrol. Gweler gwefan SSCE Cymru i gael syniadau ar sut y gall ysgolion ddeall, ymgysylltu a dathlu!

Month of the Military Child
Mis y Plentyn Milwrol

April/Ebrill | #MilitaryChildMonthCymru

Mynychu digwyddiadau lleol sydd yn cael eu cynnal yn ystod mis Ebrill i ddathlu Mis y Plentyn Milwrol.

Cofiwch roi neges ar y cyfryngau cymdeithasol a defnyddio'r hashnod: #MilitaryChildMonthCymru #MotMC
Tagiwch @SSCECymru ar Twitter

SSCE CYMRU